Negeseuon Allweddol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru
Mai 2021

Amddiffyn Plant yn Effeithiol

Cafwyd trosolwg o gynnydd a gwaith rhanbarthol yn y dyfodol mewn cysylltiad â phrosiect gweddnewid amddiffyn plant yn effeithiol i aelodau'r bwrdd gan Dafydd Paul. Tynnodd y cyflwyniad sylw at y pedwar thema ymarfer canlynol

- Sgyrsiau – cyfathrebu effeithiol trwy 'drafodaethau ar y cyd'
- Trothwyon – penderfyniadau cyson wrth asesu risg
- Newid – ffocws clir ar y newid angenrheidiol er mwyn atal niwed
- Mesur – mesur ein cynnydd tuag at ganlyniadau

Camdriniaeth rhwng Cyfoedion mewn Lleoliadau Addysg

Cadarnhaodd aelodau'r bwrdd y byddai hyfforddiant er mwyn codi ymwybyddiaeth am hyn yn cael ei gynnal.
Cytunwyd y byddai uned fusnes Bwrdd Diogelwch Gogledd Cymru yn llunio briff saith munud am y testun. Byddai hefyd yn cael ei drafod yn yr is-grŵp gweithlu a hyfforddiant Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

Ystadegau Addysg Ddewisol yn y Cartref

Cyflwynwyd trosolwg o'r data presennol mewn cysylltiad â phlant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref i'r Bwrdd. Rydym wedi gweld cynnydd yn ystod y pandemig yn y nifer o plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref. Bydd y bwrdd yn cynnal gwaith pellach yn y maes yma o waith.

Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Cyflwynwyd diweddariad mewn cysylltiad â'r gwaith a wnaed ar Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Yn ystod yr ail gyfnod, mae pob asiantaeth wedi bod yn gwneud gwaith pellach i godi ymwybyddiaeth ynglŷn ag atal cam-drin plant yn rhywiol ac annog plant i siarad pan fydd camdriniaeth wedi digwydd.